10 Mehefin 2010

HANNER CAN DIWRNOD I FYND CYN CYCHWYN EISTEDDFOD 2010

Dim ond hanner can diwrnod sydd i fynd cyn i giatiau'r Gweithfeydd yng Nglyn Ebwy agor ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd, sy'n cychwyn gyda'r cyngerdd agoriadol, nos Wener 30 Gorffennaf eleni.

Gyda thir Y Gweithfeydd eisoes yn cael ei drawsnewid er mwyn creu cartref ar gyfer y Brifwyl eleni, mae'r trefi cyfagos hefyd wedi dechrau paratoi ar gyfer ein hymweliad drwy godi fflagiau drwy'r strydoedd, er mwyn dangos croeso'r Cymoedd i'r miloedd o ymwelwyr a fydd yn cyrraedd yr ardal yn ystod mis Awst eleni.

Heddiw, mae'r Eisteddfod yn lansio pecyn arbennig er mwyn helpu busnesau'r ardal i farchnata'u gwasanaethau a'u cynnyrch i Eisteddfodwyr. Bydd y pecyn busnes yn cael ei ddosbarthu i gwmnïau a busnesau ar hyd a lled yr ardal a'i fwriad yw cynnig cyngor, gwybodaeth ac ychydig o ymadroddion Cymraeg. Mae hefyd yn cynnwys nifer o ddeunyddiau hyrwyddo er mwyn i'r siopau a'r busnesau fod yn rhan o fwrlwm yr ŵyl dros yr wythnosau nesaf.

Erbyn hyn, mae fflagiau pinc yr Eisteddfod wedi'u gosod mewn trefi ym Mlaenau Gwent, ac mae trefnwyr yr Eisteddfod yn annog busnesau a thrigolion yr ardal i ddangos eu cefnogaeth i'r Eisteddfod trwy gymryd rhan yn yr ymgyrch Ffoli ar Fflagiau. Bwriad yr ymgyrch hon, a drefnir ar y cyd gydag ymgyrch Y Cymoedd, Calon ac Enaid Cymru, yw darparu fflagiau a phosteri'n rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n byw yn nalgylch yr Eisteddfod ac sy'n awyddus i gefnogi ac i groesawu'r Eisteddfod i'r ardal. Gellir archebu'r fflagiau o wefan yr Eisteddfod – www.eisteddfod.org.uk.
Meddai Prif Weithredwr yr Eisteddfod, Elfed Roberts:

"Mae'n anodd credu mai dim ond hanner can diwrnod sydd i fynd cyn y bydd yr Eisteddfod yn cychwyn eleni. Mae'r misoedd diwethaf wedi hedfan heibio, ac mae'r gefnogaeth gan y bobl leol, yn drigolion, gwirfoddolwyr, busnesau a sefydliadau ar hyd a lled y dalgylch wedi cynyddu a lledaenu, ac mae pawb wedi cydweithio mor galed i sicrhau bod yr ardal yn dangos ei chefnogaeth i'r Brifwyl. "Felly, hanner can diwrnod sydd gennym ar ôl i annog gweddill Cymru i ddod i Flaenau Gwent, i'w hannog nhw i fod yn rhan o Ŵyl a fydd, yn sicr, yn wahanol i'r Eisteddfod y llynedd, ac i'w hannog nhw i fod yn rhan o'r bwrlwm a'r hwyl a fydd yn eu disgwyl yma'n Y Gweithfeydd.

"Mae gennym gyfres o gyngherddau gyda rhai o sêr blaenaf Cymru, gan gynnwys Rhydian Roberts, Aled Jones, Only Men Aloud a John Owen-Jones, gydag amrywiaeth o genres a pherfformiadau o bob math ar lwyfan y Pafiliwn gyda'r nos. Bydd Maes B hefyd yn lwyfan i fandiau gorau Cymru, gyda thua 40 ohonyn nhw'n perfformio'n ystod yr wythnos, gan gynnwys pobl fel Elin Fflur, Cate Le Bon, Bryn Fôn a Derwyddon Dr Gonzo.

"Braf hefyd yw cydweithio gydag Academi eto ar raglen Maes C, a bydd y Stomp yn sicr o fod yn un o uchafbwyntiau'r wythnos i lawer o Eisteddfodwyr – gyda Tebot Piws a Meic Stephens hefyd yn sicr o ddenu cynulleidfaoedd i Barc Bryn Bach, lle cynhelir y nosweithiau eleni.

"Mae'r ymateb lleol wedi bod yn arbennig iawn – pawb yn awyddus i fod yn rhan o'r Eisteddfod - ac yn eiddgar i groesawu gweddill y genedl i'r ardal. Ein gwaith, nawr, yw annog pawb arall i ddod i'n gweld. Dyma'r tro olaf y daw'r Eisteddfod i

Flaenau Gwent oherwydd cynlluniau adfywio, felly dewch draw, o bob cwr o'r wlad, er mwyn ei gwneud yn wythnos ardderchog ac er mwyn sicrhau bod yr ardal arbennig yma'n gweld ac yn mwynhau cefnogaeth gweddill Cymru ymhen hanner cant o ddyddiau."

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd yn Y Gweithfeydd, Glyn Ebwy o 31 Gorffennaf – 7 Awst. Mae'r Maes yn gyfleus ar gyfer ymwelwyr o bob rhan o Gymru, gyda chysylltiad hawdd gyda phriffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ddeugain munud o ganol Caerdydd, mae Glyn Ebwy yn awr o daith o Abertawe, ac yn ddwy awr a chwarter o ardal Dolgellau.

Mae'r Ŵyl yn denu tua 160,000 o ymwelwyr yn flynyddol, ac fe'i chynhelir yn y gogledd a'r de bob yn ail blwyddyn. Ceir mynediad am ddim i holl weithgareddau'r Brifwyl am bris tocyn Maes dyddiol.

Mae'r Eisteddfod yn derbyn grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Eisteddfod yn derbyn arian gan awdurdodau unedol Cymru drwy bartneriaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Eleni, yn ogystal, derbyniodd yr Eisteddfod £300,000 gan Raglen Adfywio Blaenau'r Cymoedd i'n galluogi i ymweld ag ardal Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd.

-diwedd –

10 June 2010

FIFTY DAYS TO GO BEFORE EISTEDDFOD BEGINS

There's only fifty days to go before the gates of The Works in Ebbw Vale open for the Blaenau Gwent and Heads of the Valleys National Eisteddfod, which starts with the opening concert on 30 July.

With the site already being transformed to create a home for this year's festival, local towns have also started preparing for our visit by raising flags in the street, to show a real Valleys welcome to the thousands of visitors who will be coming to the area during August this year.

Today, the National Eisteddfod launches a business pack to help local companies to market their services and produce to Eisteddfodwyr. The pack will be

distributed to companies and businesses across the area, offering advice, information and some useful Welsh phrases. It also includes a number of promotional materials so that shops feel part of the celebrations over the next few weeks.

By now, the bunting is up in towns across Blaenau Gwent, and Eisteddfod organisers are encouraging local businesses and residents to show their support for the Eisteddfod by taking part in the Go Bonkers for Bunting campaign. This campaign, organised jointly with The Valleys Heart and Soul campaign, provides bunting and posters free of charge to anyone living in the catchment area, who wants to show their support for the festival. Bunting can be ordered via the Eisteddfod website – www.eisteddfod.org.uk .
National Eisteddfod Chief Executive, Elfed Roberts, said:

"It's difficult to believe that there's only fifty days to go before the Eisteddfod starts this year. The past few months have flown by, and the support from local people – residents, volunteers, businesses and organisations - across the catchment area has increased and widened, with everyone working so hard to ensure that the whole region shows its support for the festival.

"We now have fifty days to encourage the rest of Wales to come to Blaenau Gwent, to encourage them to be part of the festival, which will be very different to last year's Eisteddfod, and to encourage them to be part of the fun which will await them here in The Works.

"We have a series of concerts with some of Wales' leading stars, including Rhydian Roberts, Aled Jones, Only Men Aloud and John Owen-Jones, with a wide range of genres and all kinds of performances on the Pavilion stage in the evening. Maes B is also stage to Wales' best Welsh language bands, with around 40 of them performing during the week, including people like Elin Fflur, Cate le Bon, Bryn Fôn and Derwyddon Dr Gonzo.

"It's also good to work with Academi again on the Maes C line up, and the Stomp is sure to be the week's highlight for many Eisteddfodwyr – with Tebot Piws and Meic Stephens sure to attract people to Parc Bryn Bach, where the evening s are held this year.

"The local response has been fantastic – with everyone wanting to be part of the Eisteddfpfod and keen to welcome the rest of Wales to the region. This is the last time the Eisteddfod can visit Blaenau Gwent because of regeneration plans, so come and join us from every part of Wales, to make sure that it's a week to remember and to make sure that the local area experiences and enjoys the support of the rest of Wales in fifty days time."

The Blaenau Gwent and Heads of the Valleys National Eisteddfod is held in The Works, Ebbw Vale from 31 July – 7 August. The Maes is convenient for visitors from all parts of Wales, with easy transport links from all main routes and regular public transport access. Forty minutes from the centre of Cardiff, Ebbw Vale is an hour from Swansea and two and a quarter hours from the Dolgellau area.

The festival attracts around 160,000 visitors every year, and is a travelling festival which alternates between north and south Wales. Entry to all daytime activities is free of charge for the price of a daily Maes ticket.

The Eisteddfod receives a grant from the Welsh Assembly Government through the Welsh Language Board. The Eisteddfod also receives funding from unitary authorities in Wales through its partnership with the Welsh Local Government Association. This year's festival has received £300,000 from the Heads of the Valleys Regeneration Programme, to enable the Eisteddfod to visit the Blaenau Gwent and Heads of the Valleys area.